

# Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned Ysgol Treferthyr

- Medi 2020

## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD

2. OPSIYNAU

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

4. YSGOLION Y DALGYLCH

5. ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED

6. CASGLIADAU

## 1. CYFLWYNIAD

**Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif**

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn ail wedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) bydd yn cychwyn yn Ebrill 2019 ac yn rhedeg hyd at 2026. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais yn dilyn cynnal ymarferiad blaenoriaethu yn seiliedig ar anghenion yr Awdurdod a gofynion Llywodraeth Cymru a arweiniodd at adnabod 5 prosiect ar gyfer cais yr Awdurdod.

Adnabuwyd yr angen i wella darpariaeth gynradd yng Nghricieth fel rhan o'r cais hwn ar y sail fod arolygon wedi adnabod fod cyflwr adeiladau Ysgol Treferthyr yng nghategori C, golygir hyn fod nifer o ddiffygion yng nghyflwr yr adeiladau, a'u bod yn aneconomaidd parhau ceisio cynnal yr adeiladau yn y dyfodol.

Ar yr 2il o Ebrill 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg 'gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferthyr.'


Golyga hyn, fel rhan o'r broses statudol, fod angen asesu'r effaith debygol ar y gymuned, yn achos pob opsiwn rhesymol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

Mae Ysgol Treferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol capasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd (Medi 2019) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Treferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

## 2. OPSIYNAU

Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i Panel Adolygu Lleol, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gorff Llywodraethol Ysgol Treferthyr, ystyried nifer o safleoedd posib ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth. Ar ddechrau'r drafodaeth roedd 11 safle wedi eu hadnabod i'w ystyried ar gyfer adeiladu ysgol newydd, gyda chapasiti ar gyfer 150 disgybl, i gymryd lle ysgol bresennol Ysgol Treferthyr.

Mae lleoliad y safleoedd posib i'w gweld yn y map isod:




Canlyniad y trafodaethau oedd y bu i'r aelodau gytuno rhestr fer o 4 safle i'w ystyried ymhellach yn dilyn PAL2. Gwnaed asesiadau manylach o'r safleoedd rheini yn PAL 3 gan gytuno i wneud gwaith pellach ar 2 safle posib, sef Safle Capel Uchaf a Safle A497.

Yn dilyn ystyried archwiliadau a gwaith pellach ar y 2 safle yma cytunwyd ar Safle A497 fel safle ffafredig yng nghyfarfod PAL4.

## 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

### 3.1 Yr Ardal

Tref glan y môr yw Cricieth yn ardal Eifionydd o Wynedd. Mae'r dref 5 milltir i'r gorllewin o Borthmadog, 8 milltir i'r dwyrain o Bwllheli ac 18 milltir i'r de o Gaernarfon. Hen dref yw Cricieth ac mae'r castell hynafol sydd yno yn dyst i hynny.

Mae'r dalgylch sy'n cwmpasu tref Cricieth yn cynnwys pentrefi Llanystumdwy, Rhoslan, a Phentrefelin.

### 3.2 Yr Economi

Mae economi'r ardal yn ddibynnol iawn ar nifer fechan o sectorau amlwg, sef y sector masnach gyfanwerthu a manwerthu, gwestai ac arlwyo a'r sector iechyd dynol a gwaith cymdeithasol. O ran cyfleodd cyflogaeth mae 17.4% o'r boblogaeth sydd mewn cyflogaeth (boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) yn cael eu cyflogi yn y sector a nodir gyntaf uchod, 17.1% yn gweithio yn yr ail a 13.2% yn y trydydd.

### 3.3 Amddifadedd

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (Malc) mae Cricieth wedi'i raddio 1685 allan o 1909 AGEHI yng Nghymru, sy'n ei roi yn y 50% lleiaf difreintiedig yng Ngwynedd.

Mae crynodeb isod o sut mae dalgylch Cricieth wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| Maes | Safle yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd.<br>1 = mwyaf difreintiedig<br>1909 = lleiaf difreintiedig | Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1530 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Incwm | 1415 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Iechyd | 1433 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Addysg | 1533 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Tai | 1237 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1909 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Mynediad i wasanaethau | 1221 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1033 | Yn y 50% lleiaf difreintiedig |

### 3.4 Y Gymuned

Dengys y tabl isod pa fath o wasanaethau sydd yn y gymuned yn nalgylch Ysgol Treferthyr:

| | Dalgylch Ysgol Treferthyr (Cricieth) |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned Neuadd Bentref** | √ |
| **Capel/Eglwys** | √ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | √ |
| **Siop** | √ |
| **Caffi/Tafarn** | √ |
| **Swyddfa Bost** | √ |
| **Meddygfa/Fferyllfa** | √ |
| **Llyfrgell** | √ |
| **Cae Chwarae Plant** | √ |
| **Banc** | **x** |
| **Cartref Henoed** | √ |
| **Canolfan Hamdden** | **x** |
| **Garej** | √ |
| **Atyniad Twristaidd** | √ |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | √ |

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yng Nghricieth, gan gynnwys;

- Canolfan dydd henoed
- Merched y Wawr
- Gweithgareddau a pherfformiadau amrywiol yn y Neuadd Goffa
- Cae Chwarae
- Gŵyl Gricieth
- Clwb Bowlio
- Ffair Cricieth
- Golff

### 3.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | x |
| **Aelwyd yr Urdd** | √ |
| **Dramâu** | x |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | √ |
| **Bore/Noson Goffi** | x |
| **Arwerthiant Cymunedol** | x |
| **Llyfrgell Gymunedol** | x |
| **Ymarfer Côr** | √ |
| **Cymraeg i Oedolion** | x |
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | x |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | √ |

## 4. YSGOLION Y DALGYLCH

### 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Treferthyr gan arolygwyr Estyn yn dilyn arolwg yn Ebrill 2018.

**Ysgol Treferthyr**

'Mae Ysgol Treferthyr yn nhref glan y môr Cricieth yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 112 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 14 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 5 dosbarth oedran cymysg.'

### 4.2 Gwybodaeth ystadegol Ysgol Treferthyr ac ysgolion cyfagos

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Treferthyr a'r ysgolion cyfagos eraill, o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion, a'r nifer o lefydd gweigion. Mae dwy o'r ysgolion hyn yn ysgolion cymunedol ac un yn ysgol Eglwysig ac maent oll yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| Ysgol | Capasiti | **Nifer ar y gofrestr** Ionawr 2020 (M – Bl6) | Categori Cyfreithiol |
|---|---|---|---|
| **Treferthyr** | 119 | 116 | **Ysgol Gymunedol** |
| **Llanystumdwy** | 53 | 22 | **Ysgol Eglwysig** |
| **Garndolbenmaen** | 73 | 45 | **Ysgol Gymunedol** |
| **Gorlan, Tremadog** | 103 | 119 | **Ysgol Gymunedol** |

***Ffynhonnell: PLASC Ionawr 2020***

### 4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

Dengys data diweddaraf o gartrefi disgyblion fod 130 o blant yn byw yn nalgylch Treferthyr llynedd (*data Medi 2019*), ac roedd 114 ohonynt yn mynychu'r ysgol. Golyga hyn fod 12% o blant oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Treferthyr yn mynychu ysgolion all-dalgylch.

| | | Dalgylch Cartref Home Catchment | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol School | TreferThyr | Llanystumdwy | Garndolben-maen | Y Gorlan | Arall Other | Cyfanswm (M-Bl6) Total (N – Yr6) |
| Ysgol / School | Treferthyr | 104 | 3 | 2 | 2 | 3 | 114 |
| | Llanystumdwy | 9 | 9 | 0 | 0 | 3 | 21 |
| | Garndolbenmaen | 2 | 0 | 34 | 1 | 10 | 47 |
| | Y Gorlan | 9 | 1 | 5 | 57 | 47 | 119 |
| | Arall / Other | 6 | 3 | 3 | 25 | | |
| | Cyfanswm (M-Bl6) Total (N – Yr6) | 130 | 16 | 44 | 85 | | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019*

## 4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | Cricieth |
|---|---|
| Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi | ✓ |
| Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol) | ✓ |
| Adrannau'r Urdd | ✓ |
| Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd | ✓ |
| Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau) | ✓ |

*Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019*

## 4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?

| Ysgol | Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau |
|---|---|
| **Treferthyr** | Rhagwelir y bydd yr ysgol newydd yn cynnwys cyfleusterau gwell a fydd yn galluogi i unrhyw weithgaredd cymunedol barhau. |

## 5. ASESIAD O EFFAITH DEBYGOL ADEILADU YSGOL NEWYDD AR SAFLE A497 AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Byddai'r ysgol newydd yn cynnwys mwy o ofod chwarae y tu allan sy'n cynyddu'r cyfleon i gynnig amrywiaeth o glybiau chwaraeon a mwy o le i gadw'n heini a chwarae yn ystod oriau'r ysgol. | Positif |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Mae'r ysgol newydd yn cynnwys cyfleusterau ac adnoddau newydd sy'n gwella'r amgylchedd addysgu ac sy'n cynnig ei hun fel gofod addas ar gyfer defnydd all-gyrsiol o'r adeilad. | Positif |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Teuluoedd yn fwy tebygol o symud i mewn i'r ardal ac yn llai tebygol o symud allan o'r ardal. | Positif |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Y tebygrwydd yw y byddai'r ysgol yn cynnig ei hun fel gofod delfrydol ar gyfer gwasanaethau cymunedol eraill megis lle i ymarfer côr neu i ddarparu gwersi Cymraeg i oedolion. | Positif |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Cyfle i ddefnyddio'r ysgol fel adnodd cymunedol a fyddai'n addas ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau. | Positif |

## 6. CASGLIADAU

Bydd yr ysgol newydd yn parhau yng nghymuned y dref ac yn gallu cynnig cyfleusterau a fyddai o fudd i'r dysgwyr a'r trigolion. Bydd arwynebedd mwy yr ysgol newydd yn cynnig ei hun ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol yn yr adeilad. Ni rhagwelir unrhyw effaith negyddol ar y ddarpariaeth bresennol ac bydd yr adeilad newydd yn creu cyfleoedd cadarnhaol i'r dyfodol. Wrth weithredu'r cynnig o sefydlu'r ysgol newydd bwriedir hyrwyddo defnydd cymunedol i'r gymuned yn ehangach, gan gynnig mwy o opsiynau ar gyfer clybiau a gweithgareddau all-gyrsiol er mwyn gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth newydd a'r adnoddau modern.



# Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol

# Ysgol Treferthyr

- Medi 2020

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **CYFLWYNIAD** | |
| | 1.1 | Y Sefyllfa yng Ngwynedd |
| | 1.2 | Polisi Iaith |
| | 1.3 | Cefndir Addysgol |
| **2.** | **PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH TREFERTHYR** | |
| | 2.1 | Cefndir Proffil Iaith Gwynedd |
| | 2.2 | Wardiau |
| | 2.3 | Ysgol Treferthyr |
| | 2.4 | Lefelau Cyrhaeddiad |
| | 2.5 | Gweithgareddau ar ôl ysgol |
| | 2.6 | Gweithgareddau Cymunedol |
| | 2.7 | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 |
| | 2.8 | Tystiolaeth Ychwanegol |
| **3.** | **EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG** | |
| | 3.1 | Opsiwn |
| | 3.2 | Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith |
| **4.** | **CASGLIAD** | |

# 1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

## 1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18% a 38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 78% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Llanrug.

## 1.2 Polisi Iaith

**Cynradd**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**Uwchradd**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.3 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth "Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" gan y Cyngor yn Ebrill 2009. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth "Rhaglen Strategol - Tuag at 2025" gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyhoeddwyd "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020" yn Rhagfyr 2017 sydd yn gosod gweledigaeth, ymrwymiad a chyfeiriad ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

# 2. PROFFIL IAITH DALGYLCH TREFERTHYR

## 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter poblogaeth y Sir wedi eu geni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, ceir cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheini a gaiff eu geni yng Nghymru tuag at y gorllewin a symud yn fewndirol o'r ardaloedd mwy poblog ar yr arfordir. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Llanrug (mae 87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Menai o Fangor (18.6%).

## 2.2 Wardiau

Mae dalgylch Ysgol Treferthyr yn cynnwys cartrefi plant dros 3 ward, sef ward Cricieth yn ei chyfanrwydd a darn o wardiau Llanystumdwy a Garndolbenmaen.

Mae proffil ieithyddol y wardiau hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

| | Cricieth | Dolbenmaen | Llanystumdwy |
|---|---|---|---|
| Hunaniaeth Gymreig yn unig | 968 (55%) | 725 (59%) | 1,392 (66.9%) |
| Dim hunaniaeth Gymreig | 669 (38%) | 436 (36%) | 580 (27.9%) |
| Aelwydydd ble mae gan o leiaf un person iaith gyntaf arall i Gymraeg neu Saesneg | 16 (0.9%) | 8 (0.7%) | 6 (0.3%) |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 1,716 (98%) | 1,181 (97%) | 2,017 (97%) |
| Gallu siarad Cymraeg | 1101 (63%) | 798 (65%) | 1,553 (77%) |
| Dim sgiliau Cymraeg | 446 (25%) | 307 (25%) | 347 (17.2%) |
| Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig | 141 (8%) | 63 (5%) | 100 (5%) |
| Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 96 (5%) | 65 (5%) | 76 (3.8%) |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 53 (3%) | 35 (2.9%) | 64 (3.2%) |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 949 (54%) | 695 (57%) | 1,406 (69.7%) |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 31 (1.8%) | 16 (1.3%) | 24 (1.2%) |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegol Gwladol*

## 2.3 Ysgol Treferthyr

Ysgol Cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Treferthyr.

Dengys y tabl isod bod 45 o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, sydd yn 39% o'r disgyblion (PLASC 2020).

**Gwybodaeth Ieithyddol ar gyfer Ysgol Treferthyr**

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Treferthyr** | 45 (39%) | 3 (3%) | 10 (9%) | 38 (33%) | 19 (16%) | **116** |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2020

## 2.5 Lefel Cyrhaeddiad

| **Ysgolion** | **% y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel disgwyliedig – Cymraeg (iaith gyntaf)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfnod Sylfaen** (Cyrraedd canlyniad 5+) | | | **CA2** (cyrraedd o leiaf lefel 4) | | |
| | **2017** | **2018** | **2019** | **2017** | **2018** | **2019** |
| **Treferthyr** | 64.3% | 90.9% | 78.6% | 90.5% | 93.3% | 88.2% |

*Ffynhonnell: GwE (Medi 2019)*

Gwelwn fod cyrhaeddiad ieithyddol Ysgol Treferthyr yn 2019 wedi bod yn 88.2% yn CA2 a 78.6% yn y Cyfnod Sylfaen.

Fel rhan o weithredu'r Siarter Iaith, mae holl ddisgyblion CA2 pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn cwblhau holiadur gwe iaith am eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ddwywaith y flwyddyn. Dyma ystadegau Hydref 2018 am y defnydd mae'r disgyblion yn ei wneud o'r Gymraeg gyda'u athrawon:

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r athrawon (ar wahân i wersi Saesneg) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Treferthyr | 85% | 11% | 2% | 0% | 2% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r cymhorthyddion (ar wahân i wersi Saesneg) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Treferthyr | 79% | 13% | 4% | 2% | 2% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo gweddill staff yr ysgol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Treferthyr | 85% | 13% | 2% | 0% | 0% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Treferthyr | 30% | 26% | 34% | 8% | 2% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Treferthyr | 19% | 23% | 34% | 19% | 7% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg ar iard yr ysgol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Treferthyr | 13% | 26% | 26% | 13% | 22% |

| Canran y plant sy'n hyderus wrth siarad Cymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Hyderus | Gweddol hyderus | Ddim yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl |
| Ysgol Terferthyr | 53% | 28% | 6% | 4% | 9% |

| Canran y plant sy'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pwysig iawn | Pwysig | Gweddol bwysig | Ddim yn bwysig | Ddim yn bwysig o gwbl |
| Ysgol Treferthyr | 85% | 15% | 0% | 0% | 0% |

Nifer o ymatebion: 53

Gwelwn yn ôl y data uchod fod defnydd o'r Gymraeg gyda staff ac yn y dosbarth yn uchel tra fod defnydd anffurfiol o'r iaith – ar yr iard a gyda disgyblion eraill, yn dipyn llai.

## 2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Treferthyr yn ei gynnig ar ôl ysgol:

| | Treferthyr |
|---|---|
| **Aelwyd yr Urdd** | ✓ |
| **Bore/Noson Goffi** | ✓ |
| **Cylch Meithrin** | ✓ |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | ✓ |

Gwelir yn y tabl uchod fod yr ysgol yn cynnal gweithgareddau Urdd ar ôl ysgol, y gallai'r disgyblion fanteisio arnynt fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg.

## 2.7 Gweithgareddau Cymunedol

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau tu allan i'r ysgol gan gynnwys Gŵyl Gricieth, cyngherddau yn y Neuadd Goffa, canu mewn cartrefi'r henoed ac Eisteddfodau.

## 2.8 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib.
- Yn y cyfnod sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Fe fyddai'r gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.

## 2.9 Tystiolaeth Ychwanegol

Mae gwefan yr ysgol yn nodi:

Gweledigaeth y Llywodraethwyr yw: "*Bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog hyderus, sy'n ymfalchïo yn eu diwylliant Cymreig ac yn eu cenedligrwydd.*"

Gweledigaeth y disgyblion yw: "*Mabwysiadwyd cymeriad unigryw ar gyfer y Siarter iaith yn Ysgol Treferthyr. Ei enw yw Iei ac mae'n annog disgyblion i fod yn ddwyieithog. Llwyddodd Ysgol Treferthyr i dderbyn achrediad Wobr Aur y Siarter Iaith yn nhymor yr haf 2017. Mae'r ysgol yn gweithio er mwyn derbyn ail achrediad Aur yng nghynllun Siarter Iaith ym Mehefin 2019.*"

Mae adroddiad Estyn yn 2018 yn nodi: *"Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref."*

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Treferthyr.pdf

## 3. EFFAITH Y CYNNIG ARFAETHEDIG AR YR IAITH GYMRAEG

Rhagwelir na fyddai symud Ysgol Treferthyr i safle newydd oddi ar y Ffordd A497 ddim yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai cadw’r drefn bresennol gyda’r un strwythur staffio.

Mae’r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth ar yr iaith Gymraeg. Mae’r tabl hefyd yn amlinellu’r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau’r iaith Gymraeg a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol a allai ddeillio o’r model.

**ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| Iaith yr ysgol | Mae Ysgol Treferthyr yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Ni fyddai ail-leoli'r ysgol ar safle arall yn cael effaith ar iaith yr ysgol. | Niwtral<br><br>Dim effaith ar sefyllfa iaith yr ysgol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg | Mae'r ysgol eisoes yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddai ail-leoli'r ysgol ar safle arall yn newid hyn. | Niwtral<br><br>Dim effaith ar sefyllfa'r iaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Darpariaeth<br><br>anstatudol | Rhagwelir byddai ysgol newydd gyda adnoddau modern yn golygu fydd gan ddisgyblion fynediad at ystod ehangach o adnoddau addas ar gyfer gwneud gweithgareddau amrywiol. | Positif | Cyfle i ddatblygu mwy o weithgareddau allgyrsiol ac i annog y disgyblion i gymryd rhan. | Positif |
| Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol | Rhagwelir byddai ysgol newydd gyda adnoddau modern yn golygu fydd gan ddisgyblion fynediad at ystod ehangach o gyfleusterau addas tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Mi all ysgol fwy gyda chyfleusterau newydd modern gynnig mwy o amrediad o weithgareddau allgyrsiol. | Positif<br><br>Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg | Cyfle i ddatblygu mwy o weithgareddau cyn ac ar ôl ysgol ac i annog y disgyblion i gymryd rhan. | Positif |
| Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned | Gallai gynyddu'r cyfleon i'r disgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg a gall mynediad at fwy o weithgareddau gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. Byddai gweithgareddau cymunedol ar gyfer aelodau o'r gymuned yn gallu cymryd lle yn yr ysgol hefyd. | Positif<br><br>Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg | Mae potensial i ysgol newydd allu cynnig y cyfle i ddatblygu gweithgareddau ar ôl ysgol i oedolion a phlant fydd yn golygu cyfleoedd ychwanegol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. | Positif |

## 4. CASGLIAD

Wedi ystyried yr hyn sydd yn yr asesiad hwn, rydym o’r farn y byddai adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, yn bennaf, oherwydd byddai mwy o gyfleoedd i blant Cricieth ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn addysgiadol, gan bydd yr ysgol newydd yn cynnig gwell adnoddau ar gyfer cynnal mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol.



# Adroddiad Asesiad Llesiant Ysgol Treferthyr

- Medi 2020

## Cynnwys


1. **CYFLWYNIAD**
2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**
3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**
4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**
5. **CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.
Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | **Llewyrchus** | **Cydnerth** | **Iachach** | **Cyfartal** | **Cymunedau Cydlynus** | **Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | **Yn gyfrifol ar lefel byd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | | | | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | | | | | | |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | | | | | | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | | | | | | | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | | | | | | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | | | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | | | | | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".


## 1.1 Cyd-destun Ysgol Treferthyr

Mae Ysgol Treferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol capasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr (Medi 2019) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Treferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau buddsoddiad mewn egwyddor o 65% gan Lywodraeth Cymru, tuag at brosiect gwerth dros £4.9 miliwn i adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth. Mae hyn yn dilyn arolygon o gyflwr yr adeilad presennol sydd wedi adnabod nifer o ddiffygion sylweddol i adeiladau Ysgol Treferthyr y byddai angen sylw buan.

Ar ddechrau'r drafodaeth roedd 11 safle posib wedi eu hadnabod i'w ystyried ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, gyda chapasiti ar gyfer 150 disgybl, i gymryd lle ysgol bresennol Ysgol Treferthyr.

Mae'r lleoliadau y safleoedd i'w gweld yn y map isod:




Bu i'r Adran Addysg a'r Adran Eiddo gyfarfod a chynrychiolaeth o Ysgol Treferthyr mewn cyfres o gyfarfodydd Panel Adolygu Lleol (PAL) i drafod manteision ac anfanteision y safleoedd ac adnabod unrhyw broblemau oedd yn codi gyda rhai o'r safleoedd.

Canlyniad y trafodaethau oedd y bu i'r aelodau gytuno rhestr fer o 4 safle i'w ystyried ymhellach yn dilyn cyfarfod PAL 2. Gwnaed asesiadau manylach o'r safleoedd rheini yng nghyfarfod PAL 3 gan gytuno i wneud gwaith pellach ar ddau safle posib, sef Safle Capel Uchaf a Safle A497.

Yn dilyn ystyried archwiliadau a gwaith pellach ar y 2 safle yma cytunwyd ar Safle A497 fel safle ffafredig yng nghyfarfod PAL 4.

Mae'r asesiad hwn yn ymwneud ag effaith adleoli Ysgol Treferthyr i'r safle ffafredig, sef Safle A497 (1) gan hefyd wneud yr un asesiad ar gyfer y safle presennol (10) a safle Capel Uchaf (11) fel cymhariaeth.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

### Adeiladu ar y Safle Presennol

| Amcanion | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Mi fydda adeiladu ysgol newydd modern yn gwella addysg y plant gan fydd adnoddau newydd pwrpasol yn cynnig amgylchedd ddysgu addas ar gyfer cyflwyno'r cwriciwlwm newydd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

### Adeiladu ar y Safle Capel Uchaf.

| Amcanion | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Mi fydda adeiladu ysgol newydd modern yn gwella addysg y plant gan fydd adnoddau newydd pwrpasol yn cynnig amgylchedd ddysgu addas ar gyfer cyflwyno'r cwriciwlwm newydd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

| Adeiladu ar Safle A497. | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Mi fydda adeiladu ysgol newydd modern yn gwella addysg y plant gan fydd adnoddau newydd pwrpasol yn cynnig amgylchedd ddysgu addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Byddai'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau modern fydd yn cynnwys adnoddau newydd cyfoes.<br><br>Byddai mwy o ofod yn yr ysgol newydd yn cynnig ei hun ar gyfer gallu cynnig mwy o weithgareddau all-gyrsiol yn yr ysgol. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion.<br><br>Mi fydd yr ysgol newydd yn cyflwyno cyfleoedd i'r gymuned ehangach ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau tu allan i oriau'r ysgol. | Yn ystod y cyfnod ymgynghori bydd cyfle i staff, plant, rhieni a'r gymuned ehangach ddeall mwy am y cynlluniau ac i gynnig sylwadau ar ddyluniad a lleoliad yr ysgol newydd. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Mae cyfle i ddatblygu ardaloedd ar y safle fydd yn cymhorthi disgyblion i ddysgu am bioamrywiaeth ac ecosystemau iach e.e gardd wyllt. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Mi fydd datblygu ysgol newydd yn gyfle i annog disgyblion i deithio i'r ysgol ar droed neu ar feic.<br><br>Mi fydd y caeau chwarae a'i hadnoddau yn creu amgylchedd wych i blant gael ymarfer corff. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau all-gyrsiol megis yr Urdd a gweithgareddau hamdden.<br><br>Cyfle i'r gymuned ehangach ddefnyddio'r ysgol ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e côr. | Yn ystod y cyfnod ymgynghori bydd cyfle i staff, plant, rhieni a'r gymuned ehangach gynnig sylwadau ar ddefnydd amgen yr ysgol. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith. |

| | | |
|---|---|---|
| Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | | |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mi fydd creu ysgol newydd yn sicrhau addysg tymor hir mewn ysgol addas i bwrpas yng Nghricieth. Mi fydd yr ysgol yn sicrhau digon o le ar gyfer holl blant y dalgylch i'r dyfodol. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. | |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Bydd lleoli gwasanaethau eraill e.e Uned ABC, Anhwylder iaith a blynyddoedd cynnar ar safle'r ysgol newydd yn rhoi cyfle i integreiddio gwasanaethau. Mi fydd y ddarpariaeth newydd hefyd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd i'r dyfodol ar gyfer y gymuned ehangach. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Mi fydd yr adeilad newydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu mwy o gydweithio gyda chyrff lleol er lles y plant a'r gymuned ehangach. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Bydd y cynnig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus gyda staff, rhieni, plant a'r gymuned ehangach.<br>Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol er mwyn ymgysylltu a budd-ddeiliaid perthnasol yr ysgol.<br>Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethu, staff, a rhieni Ysgol Treferthyr.<br>Mi fyddwn yn parhau i gynnwys cynrychiolwyr Ysgol Treferthyr ar hyd y daith o greu'r ysgol newydd. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn golygu bydd plant y dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgol newydd gydag adnoddau fydd yn addas i'r 21ain Ganrif. Rhagwelir fydd yr adnodd yma yn golygu gwell addysg i plant y dalgylch a gwell adnoddau i ddefnydd y gymuned ehangach.



# Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Treferthyr

- Medi 2020

## Cynnwys


1. **CYFLWYNIAD**

2. **OPSIYNAU**

3. **EFFAITH UNRHYW NEWID**

4. **DADANSODDI’R CANLYNIADAU**

5. **CASGLIAD**

## CYFLWYNIAD


### 1.1 Cyd-destun Ysgol Treferthyr

Mae Ysgol Treferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol gapasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd (Medi 2019) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Treferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

## 2. OPSIYNAU

### 2.1 Canlyniad trafodaethau'r cyfarfodydd Panel Adolygu Lleol

Ar ddechrau'r drafodaeth roedd 11 safle wedi eu hadnabod i'w hystyried ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, gyda chapasiti ar gyfer 150 disgybl i gymryd lle'r ysgol bresennol - Ysgol Treferthyr.



Bu i’r Adran Addysg a’r Adran Eiddo gyfarfod a chynrychiolaeth o Ysgol Treferthyr mewn cyfres o gyfarfodydd Panel Adolygu Lleol (PAL) i drafod manteision ac anfanteision y safleoedd ac adnabod unrhyw broblemau oedd yn codi gyda rhai o’r safleoedd.

Canlyniad y trafodaethau oedd y bu i’r aelodau gytuno rhestr fer o 4 safle i’w ystyried ymhellach yn dilyn cyfarfod o’r Panel Adolygu Lleol 2. Gwnaed asesiadau manylach o’r safleoedd rheini ac oherwydd problemau nad oedd modd eu goresgyn cytunwyd i ganolbwyntio ar ddau safle posib, sef Safle Capel Uchaf a Safle A497, yn nghyfarfod Panel Adolygu Lleol 3.

Yn dilyn ystyried archwiliadau a gwaith pellach ar y ddau safle yma cytunwyd ar Safle A497 fel y safle ffafredig yng nghyfarfod Panel Adolygu Lleol 4.

Mae’r asesiad hwn yn ymwneud ag effaith adleoli Ysgol Treferthyr i’r safle ffafredig, sef Safle A497.

## 3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Polisïau yn eu lle gan yr ysgolion.<br>Ni fyddai gweithredu y cynnig yn effeithio ar bobl ar sail hil. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn golygu fod pawb o unrhyw hil yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi eu bod yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim | Ni rhagwelir unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg (gweler asesiad ieithyddol ar wahân) |
| **Anabledd** | Positif | Polisïau yn eu lle gan ysgolion.<br><br>Byddai adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth ar safle A497 yn golygu bydd yr ysgol newydd yn cynnwys adnoddau modern fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw amhariadau corfforol penodol. Mae rheolau adeiladu ysgolion modern yn datgan fod yn rhaid adeiladu ysgol a fyddai'n addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag amhariadau penodol.<br><br>Fel awdurdod bydd gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddisgyblion sydd ag amhariadau corfforol ar gofnod gan yr Adran Addysg. Byddai asesiad o hygyrchedd y safle arfaethedig yn cael ei gynnal yn unol â sefyllfaoedd penodol. |
| **Rhyw** | Dim | Polisïau yn eu lle gan ysgolion.<br><br>Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail rhyw. Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Dim | Bydd yr ysgol newydd ar gael i'r un ystod oed a'r un presennol. Er fydd yr ysgol yn symud safle mi fydd yr ysgol newydd dal wedi ei leoli yn nhref Cricieth ac o fewn cyrraedd hawdd i plant a rhieni. Mi fydd angen i rai rhieni ddod lawr allt i gyrraedd ond mae hyn yn wir am yr ysgol bresennol hefyd. Credir fydd mynediad i'r ysgol yn mwy hwylus i bobl ar droed a char i gymharu a'r ysgol bresennol gan fod rhaid mynd drwy stad o dai ar hyn o bryd. Mi |

| | | |
|---|---|---|
| | | fydd cyrraedd darpariaeth blynyddoedd cynnar cyn-ysgol sydd ar safle yr ysgol newydd llawn mor hwylus a chyrraedd yr ysgol. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Ysgol gymunedol yw Ysgol Treferthyr ac nid oes bwriad i newid hyn wrth symud i Safle A497. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail crefydd neu gred. Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Ailbennu Rhywedd** | Dim | Polisïau yn eu lle gan ysgolion.<br><br>Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Bydd gweithredu y cynnig yn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg. Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim | Dim yn berthnasol. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Dim | Dim yn berthnasol. |

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni fydd y cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol wrth ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt.<br><br>Byddant yn parhau i ddefnyddio Cyngor yr Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau fod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethau anghyfreithlon aflonyddu ac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Mae gwersi ABCh yn digwydd yn yr ysgol fydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nad ydi | Mae gwersi ABCh yn digwydd yn yr ysgol fydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |

## 4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Rhagwelir bydd yr effaith yn bositif gan y bydd ysgol newydd yn cynnwys adnoddau modern ar gyfer yr 21ain ganrif fydd yn hwyluso cyfleoedd cyfartal a gwella'r cyfleoedd i feithrin perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned.<br>Mi fydd yr ysgol newydd yn cynnwys adnoddau modern fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw amhariadau corfforol penodol.<br>Rhagwelir fydd lleoliad yr ysgol yr un mor hwylus a'r ysgol bresennol ac y bydd cyrraedd yr ysgol newydd yr un mor rwydd, os nad haws. |

4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nac ydi |

4.3 Beth ddylid ei wneud?

**Dewiswch un o'r canlynol:**

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Er nad ydym yn gweld unrhyw effaith negyddol, byddem yn monitro ac yn gweithredu yn ôl y galw. |

4.5 Monitro - pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Byddem yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau fod y deilliannau yn bositif a ddim yn cael unrhyw effaith negyddol. |

## 5. CASGLIAD

Deuir i gasgliad na fyddai adleoli Ysgol Treferthyr i safle newydd A497 yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd cyffredinol.

Rhagwelir y byddai adeiladu ysgol newydd yn cryfhau agweddau cydraddoldeb oherwydd y byddai'n fwy addas ar gyfer addysgu pob plentyn, yn enwedig y rhai ac anableddau, drwy ddilyn canllawiau adeiladu ysgolion modern.

Gweithredir Ysgol Treferthyr polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio gadarn fyddai'n parhau i gael eu gweithredu yn yr ysgol newydd.